John Elias o Fôn, 1774–1841
Gweinidog (MC), pregethwr

Nid oes sicrwydd ynghylch dyddiad geni John Elias, ond fe'i bedyddiwyd ar 6 Mai 1774. Mab ydoedd i'r gwehydd a'r ffermwr Elias Jones a'i wraig Jane, Brynllwyn Bach, Abererch, Pwllheli. Bu ei daid, John Elias, yn ddylanwad crefyddol trwm arno yn ystod ei blentyndod, a phan ddechreuodd bregethu mabwysiadodd ei enw. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Hendre Hywel ym Medi 1793, ac fel pregethwr ar ddydd Nadolig 1794 yng nghyfarfod misol Brynrodyn. Aeth y sôn amdano ar led yn fuan ac fe aeth ar deithiau pregethu trwy Gymru, Lerpwl a Manceinion. Fel nifer o'i gyfoedion, ychydig addysg a gafodd, ond bu am gyfnod byr yn ysgol Evan Richardson, Caernarfon, lle dysgodd beth Saesneg. Ordeiniwyd ef ym 1811, ac yr oedd ymhlith gweinidogion ordeiniedig cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd.

Ar ddechrau'r 19eg ganrif ef oedd un o'r pregethwyr grymusaf a mwyaf poblogaidd yng Nghymru oherwydd ei ddoniau areithyddol dramatig a'i bregethau Beibl-ganolog. Tyrrai pobl i wrando arno'n pregethu'r Efengyl a daeth miloedd i'r bywyd o dan ei weinidogaeth. Aeth rhai o'i oedfaon yn rhan o chwedloniaeth ein cenedl. Un enghraifft oedd oedfa awyr agored yng Nghaergybi lle'r oedd meddwon yn bresennol. Fe roddodd John Elias hwy ar ocsiwn gan eu cynnig i'r gwahanol enwadau ac i'r diafol, ond nid oedd neb yn barod i'w derbyn. Yn y diwedd yr un a'u prynodd oedd Iesu Grist, er mwyn eu golchi a'u sancteiddio. Trwy gyfrwng ei bregethu hyrwyddodd achos dirwest a diweirdeb, ac ymgyrchodd i ddileu'r gwylmabsantau a'r ffeiriau cyflogi ar y Sul am ei fod yn credu eu bod yn esgor ar anfoesoldeb.

Dywedodd Owen Thomas, Lerpwl amdano, 'Fel pregethwr, yr ydym yn teimlo fod John Elias yn gwbl annysgrifiadwy. Yr oedd ynddo rywbeth ag y mae yn anmhosibl, dybygem ni, rhoddi un syniad amdano i'r rhai nas clywsant ef ei hunan, a rhywbeth oedd yn gwneud ei ddylanwad ar ei wrandawyr yn annghydmarol... Yr ydoedd, y mae yn ddiamheuol, y pregerhwr mwyaf poblogaidd a

chymmeryd y Dywysogaeth yn gyffredinol, a gododd erioed yn Nghymru.'

O ran cymeriad dywedir ei fod yn eithriadol o benderfynol, yn sicr iawn o'i farn ei hun, ac yn dueddol o dra-arglwyddiaethu ar eraill. Dywedir mai dim ond un person a allai roi caead ar ei biser a hwnnw oedd ei gefnder, y Parch. William Roberts, Amlwch. O ran diwinyddiaeth yr oedd yn Uchel Galfinaidd, a dim ond ar ôl ei farwolaeth ef a'i genhedlaeth yr enillodd Calfiniaeth gymedrol ei phlwyf yng Nghymru.

Oherwydd ei ddoniau cynhenid a'i bendantrwydd daeth yn un o arweinyddion y Methodistiaid Calfinaidd. Bu iddo ran allweddol yn llunio cyfansoddiad y Gyffes Ffydd a fabwysiadwyd ym 1823, ac yn natblygiad y Cyfundeb. Yr oedd yn geidwadol iawn yn wleidyddol ac yn gwrthwynebu i Gristnogion ymyrryd mewn gwleidyddiaeth. Gwrthwynebodd yn chwyrn y mesur i ryddfreinio'r Pabyddion ym 1832 trwy ddatgorffori eglwys Jewin Crescent yn Llundain am gyfnod byr oherwydd bod rhai o'r aelodaeth wedi arwyddo deiseb o blaid y mesur.

Bu'n briod ddwywaith. Ym mis Chwefror 1799 priododd ag Elizabeth, merch hynaf Richard Broadhead, Tre'r Gof, Llanbadrig, Môn, ac aeth i fyw yn Llanfechell, Môn, i gadw siop gyda hi. Cawsant bedwar o blant ond bu farw dau yn eu plentyndod. Bu Elizabeth farw ym 1822 ac ailbriododd John Elias ymhen dwy flynedd â gweddw Syr John Bulkeley, Persaddfed, Bodedern. Symudasant i'r Fron, Llangefni, ac yno y bu farw ar 8 Mehefin 1841. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Llan-faes ger Biwmares a dywedid bod 10,000 o alarwyr yn yr angladd.